## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4232 (TROSBONT DDWYREINIOL CAPEL LLANILLTERN (CYFFORDD 33 YR M4), CAERDYDD) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2025

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A4232, neu gerllaw iddi, wrth Gapel Llanilltern (Cyffordd 33 yr M4), yng Nghaerdydd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o brif gerbytffordd gylchredol cefnffordd yr A4232 wrth Drosbont Ddwyreiniol Capel Llanilltern (Cyffordd 33 yr M4), Caerdydd, o'r man lle mae ffordd ymuno tua'r dwyrain traffordd yr M4 yn gadael y gerbytffordd gylchredol hyd at y man lle mae ffordd ymadael tua'r gorllewin traffordd yr M4 yn ymuno â'r gerbytffordd gylchredol.

Y llwybr arall i yrwyr sy'n teithio tua'r dwyrain ac sy'n dymuno ymuno â chefnffordd yr A4232 wrth Gapel Llanilltern (Cyffordd 33 yr M4) yw parhau ar gerbytffordd traffordd yr M4 tua'r dwyrain i ymadael wrth Gyffordd 32 Coryton ac yna cael mynediad i gerbytffordd traffordd yr M4 tua'r gorllewin i ymadael wrth Gyffordd 33 i ymuno â'r A4232.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 18 Medi 2025. Bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol yn ystod y nos yn unig (20:00 o'r gloch i 06:00 o'r gloch) a disgwylir iddo gael ei gynnal hyd at 1 Hydref 2025, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei roi cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A4232 TRUNK ROAD (CAPEL LLANILLTERN (M4 JUNCTION 33) EASTERN OVERBRIDGE, CARDIFF) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2025

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A4232 trunk road at Capel Llanilltern (M4 Junction 33), in Cardiff.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the main circulatory carriageway of the A4232 trunk road at Capel Llanilltern (M4 Junction 33) Eastern Overbridge, Cardiff, from where the M4 motorway eastbound on-slip road leaves the circulatory carriageway to where the M4 motorway westbound off-slip road joins the circulatory carriageway.

The alternative route for eastbound drivers wishing to join the A4232 trunk road at Capel Llanilltern (M4 Junction 33) is to continue on the eastbound carriageway of the M4 motorway to exit at Junction 32 Coryton and then access the westbound carriageway of the M4 motorway to exit at Junction 33 to join the A4232.

The Order will come into force on 18 September 2025. The temporary prohibition will operate during night-time hours only (20:00 hours to 06:00 hours) and is expected to be carried out until 1 October 2025, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled, or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be given before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government